

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A40  
(CYLCHFAN PONT LESNEVEN,  
CAERFYRDDIN I GYLCHFAN SANCLÊR,  
SANCLÊR, SIR GAERFYRDDIN) (GWAHARDD  
TROEON PEDOL) 202-**

Mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu gwneud Gorchymyn drwy arfer eu pwerau o dan adrannau 1(1), 2(1), 2(2) a 124(1)(d) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 a pharagraff 27(1) o Atodlen 9 iddi.

Effaith y Gorchymyn fydd gwahardd pob cerbyd sy'n teithio tua'r gorllewin a thua'r dwyrain ar gefnffordd yr A40 rhag gwneud troeon pedol drwy'r bylchau yn llain ganol y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd ag ochr orllewinol cylchfan Pont Lesneven, Caerfyrddin hyd at ei chyffordd ag ochr ddwyreiniol cylchfan Sanclêr, Sanclêr, Sir Gaerfyrddin. Bydd y Gorchymyn arfaethedig yn dirymu Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Caerfyrddin – Sanclêr, Sir Gaerfyrddin) (Gwahardd Troeon Pedol) 1997 (O.S. 1997/1935).

Yn ystod cyfnod o 21 o ddiwrnodau o 26 Ionawr 2022 ymlaen, gellir edrych ar gopi o'r Gorchymyn arfaethedig, y plan, Datganiad o'r Rhesymau dros wneud y Gorchymyn a'r Gorchymyn sy'n cael ei ddirymu yn rhad ac am ddim yn ystod oriau agor arferol yn Llyfrgell Caerfyrddin, Stryd San Pedr, Caerfyrddin SA31 1LN. Gellir gweld y dogfennau hefyd ar wefan Llywodraeth Cymru yn <https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd> neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim drwy ysgrifennu at y Gangen Orchmynion yn y cyfeiriad isod, gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1473048.

Rhaid anfon unrhyw wrthwynebiadau, gan nodi ar ba sail y'u gwneir a dyfynnu'r cyfeirnod qA1473048, drwy e-bost i [Trafnidiaeth.YGangenOrchmynion@llyw.cymru](mailto:Trafnidiaeth.YGangenOrchmynion@llyw.cymru) neu'n ysgrifenedig i'r cyfeiriad isod erbyn 16 Chwefror 2022.

Os ydych yn dymuno gwrthwynebu, cefnogi neu gyflwyno sylwadau, efallai y bydd angen i Lywodraeth Cymru ymgynghori â phobl a sefydliadau y tu allan i Lywodraeth Cymru. Fel rhan o'r broses ymgynghori caniateir i ni roi gwybodaeth iddynt, gan gynnwys gwybodaeth yr ydych wedi ei rhoi i ni a'ch data personol. Ni fyddwn, fodd bynnag, yn datgelu eich manylion personol ond pan fo hynny'n angenrheidiol er mwyn ymdrin â'r materion a godwyd. Os nad ydych yn dymuno i ddata personol gael ei anfon ymlaen at drydydd parti, dylech nodi hyn pan fyddwch yn cyflwyno eich gohebiaeth a bydd Gweinidogion Cymru yn copio'r sylwadau i'r trydydd parti priodol

**THE A40 TRUNK ROAD (PONT LESNEVEN  
ROUNDAABOUT, CARMARTHEN TO ST  
CLEARS ROUNDAABOUT, ST CLEARS,  
CARMARTHENSHIRE) (PROHIBITION OF U-  
TURNS) ORDER 202-**

The Welsh Ministers propose to make an Order in exercise of their powers under sections 1(1), 2(1), 2(2) and 124(1)(d) of, and paragraph 27(1) of Schedule 9 to, the Road Traffic Regulation Act 1984.

The effect of the Order will be to prohibit all westbound and eastbound vehicles travelling on the A40 trunk road from making U-turns through the gaps in the central reservation of the length of the trunk road that extends from its junction with the western side of Pont Lesneven roundabout, Carmarthen to its junction with the eastern side of St Clears roundabout, St Clears, Carmarthenshire. The A40 Trunk Road (Carmarthen – St Clears, Carmarthenshire) (Prohibition of U-Turns) Order 1997 (S.I. 1997/1935) will be revoked by the proposed Order.

During a period of 21 days from 26 January 2022, a copy of the proposed Order, plan, the Statement of Reasons for making the Order and the Order being revoked may be inspected, free of charge, during normal opening hours at Carmarthen Library, St Peter's Street, Carmarthen SA31 1LN. The documents can also be viewed on the Welsh Government's website at <https://gov.wales/road-orders> or may be obtained free of charge by writing to Orders Branch at the address below, quoting reference number qA1473048.

Objections, specifying the grounds on which they are made and quoting reference number qA1473048, must be sent by e-mail to [Transportordersbranch@gov.wales](mailto:Transportordersbranch@gov.wales) or in writing to the address below by 16 February 2022.

Should you wish to object, support or make representations, the Welsh Government may need to consult with people and organisations outside the Welsh Government. As part of the consultation process we may pass information to them, including information you have provided and your personal data. We will, however, only disclose your personal details where it is necessary to do so to address the issues raised. If you do not wish for personal data to be forwarded to third parties, you should state this when submitting your correspondence and the Welsh Ministers will copy the representations to the appropriate third parties with the name and address

gyda'r enw a'r cyfeiriad wedi eu dileu. Os bydd Ymchwiliad Cyhoeddus yn cael ei gynnal, bydd yr Arolygydd yn gweld y sylwadau ond efallai y bydd yn rhoi llai o sylw iddynt o ganlyniad i hyn.

**Gellir gweld gopi o'r Hysbysiad hwn, y Gorchymyn arfaethedig, y plan, Datganiad o'r Rhesymau dros wneud y Gorchymyn a'r Gorchymyn sy'n cael ei ddirymu ar wefan Llywodraeth Cymru ar <https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd> a/neu gael copi print bras yn rhad ac am ddim drwy ysgrifennu at Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ, gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1473048**

**J SADDLER**  
Trafnidiaeth  
Llywodraeth Cymru

removed and if there is to be a Public Inquiry, the representations will be seen by the Inspector who may give them less weight as a result.

**A copy of this Notice, the Order, Plan, Statement of Reasons and the Order being revoked can be viewed on the Welsh Government's website at <https://gov.wales/road-orders> and/or obtained in larger print free of charge by writing to Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ, quoting reference number qA1473048.**

**J SADDLER**  
Transport  
Welsh Government